# Adroddiad y Cadeirydd

Rwy'n ysgrifennu hwn yng nghanol yr argyfwng coronafeirws, heb unrhyw syniad eglur o'r llwybr sydd o'n blaenau. Fe fyddwch yn ei ddarllen pan fyddwn i gyd yn bellach i lawr y llwybr hwnnw a bydd yn anodd cofio sut oedd ein bywydau cyn inni gychwyn ar y daith hon. Digon yw dweud bod effaith sefydliad yn cael ei farnu ar sut y mae'n perfformio mewn cyfnod cyffredin ac mewn argyfwng ac rwy'n falch bod Chwarae Cymru wedi arwain yn ystod y ddau.

### Felly, dewch inni ystyried y cyfnod cyffredin yn gyntaf.

Mae arfer dda'n seiliedig ar ymchwil ac mae Chwarae Cymru wedi bod yn awyddus i ddarganfod pa brofiadau y mae plant wedi eu cael o'u hawl i chwarae a'r amser, lle a chefnogaeth i'w wneud yn realiti. Mae Chwarae Cymru wedi comisiynu ymchwil oddi wrth y plant yn uniongyrchol ac oddi wrth awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sicrhau Digonolrwydd Chwarae.

Mae arfer yn galw am hyfforddiant ar gyfer gweithwyr chwarae, ac mae Chwarae Cymru wedi cyd-ariannu, cyd-ddylunio a chefnogi peth o'r hyfforddiant gorau a mwyaf cynhwysfawr yn y DU. Mae hyn yn cynnwys 29 cwrs gwaith chwarae'n ystod y flwyddyn ar gyfer 315 o ddarpar-ymarferwyr, gyda digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus i ehangu ar yr hyfforddiant hwnnw ac i gadw llygad ar eu cynnydd.

Fydd ymchwil a hyfforddiant yn fawr o werth os ydyn nhw'n ymlafnio'n erbyn agweddau sydd wedi hen galedu ac mae Chwarae Cymru wedi canfod ffyrdd dyfeisgar i atgyfnerthu'r agweddau cywir tuag at chwarae ac o fynd i'r afael ag agweddau anghywir. Cynorthwyodd Rhwydwaith Chwarae Strategol Cymru gyda datblygu adnodd i roi arweiniad i athrawon ysgol ac mae gwefan *Plentyndod Chwareus* bellach wedi cyrraedd miloedd ar filoedd o rieni a gofalwyr trwy Gymru gyfan.

Cydweithiodd plant ysgol gynradd ar gynhyrchu *Hwyl yn yr ardd*, fel llyfr stori dilynol i *Hwyl yn y dwnjwn*. Cefnogodd ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol #ProsiectChwarae waith y Gwasanaeth Gwybodaeth. A chychwynnwyd cynllun tair blynedd i gynhyrchu Llysgenhadon Chwarae i hybu hawl plant i chwarae yn y gymuned.

### Ond beth am y feirws?

Ar adegau pan fyddwn yn bryderus am ein diogelwch a phan fydd rhai ohonom yn wynebu trychinebau, pan fyddwn wedi ein gwahanu oddi wrth ein teuluoedd a'n ffrindiau, a phan mae ein byd wedi crebachu i ddim ond y teledu a'i rybuddion dyddiol, mae chwarae'n dal i fod yn allweddol ar gyfer datblygiad iach ein plant. Ond mae'r neges yn galw am bwyll a dycnwch, wedi eu cefnogi gan gyngor ymarferol da. Mae Chwarae Cymru wedi bod yn barod gyda'r ddau.

Erbyn diwedd y flwyddyn adrodd hon (Mawrth 2020), roedd eisoes wedi dosbarthu ffrwd gyson o syniadau ac awgrymiadau anhygoel ar gyfer rhieni a gofalwyr am chwarae yn y cartref, wedi comisiynu fideo'n llawn syniadau chwarae, ac wedi casglu myfyrdodau oddi wrth rieni oedd yn dysgu eu plant adref yn ystod y clo mawr. Rwyf wedi gwrando ar nifer o arbenigwyr chwarae'n siarad ar y cyfryngau, ond gallaf ddweud gyda'm llaw ar fy nghalon mai'r cyngor oddi wrth Chwarae Cymru oedd y gorau – ac mae ymateb y gynulleidfa'n profi hynny.

Felly, diolch unwaith eto i Chwarae Cymru am eich gwaith i gyd, diolch i'r rhieni a'r gofalwyr sydd wedi cadw ffydd yng ngwerth chwarae, diolch i'r plant eu hunain am adrodd yn ôl inni am eich profiadau, a diolch i Lywodraeth Cymru am gydnabod hyn i gyd trwy eich ariannu. Fe ddaw'r argyfwng hwn i ben, a bydd chwarae wedi helpu ein plant i ddod trwyddo.



Dr Mike Shooter CBE
Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru

# Adroddiad y Cyfarwyddwr

Y llynedd, fe wnes i gyfeirio at sut yr oeddem wedi cydnabod bod ein ffocws pennaf ar y rheini y mae eu gwaith a'u diddordeb proffesiynol yn golygu eu bod angen gwybodaeth am chwarae a'i bwysigrwydd i blant er mwyn iddynt gyflawni eu gwaith yn fwy effeithlon.

Roeddem wedi sylweddoli ein bod yn colli cyfle ac, yn syml, nad oeddem yn cyrraedd ystod eang o bobl oedd wir angen clywed ein neges; pobl oedd ddim yn gwybod am Chwarae Cymru neu fyddai, o bosibl, ddim yn meddwl ymweld â'n gwefan fel rhan o'u bywyd bob dydd – rhieni.

Sylweddoli pan fyddai rhywun yn chwilio am gyngor ar beth i'w wneud gyda'u plant ar ddiwrnod glawog, neu daith hir yn y car neu'n ystod gwyliau'r ysgol, bod peiriannau chwilio ar-lein yn eu cyfeirio at ystod gyfyng o opsiynau, oedd yn golygu gwario arian i ddiddanu'r plant.

Fe fyfyriais ar yr hyn y mae pob un ohonom yn gwybod sy'n elfen fwyaf deniadol aml i anrheg Nadolig neu ben-blwydd i'r plant; y pecynnu – y bocs y daw'r tegan ynddo.

Fe lansiom ein gwefan *Plentyndod Chwareus* gyda'r bwriad o atgoffa pobl sut oedd pethau pan oedd elfen naturiol o blentyndod yn golygu creu ein cyfleoedd chwarae ein hunan yn hytrach na'u prynu neu fynd i barc thema … chwarae gyda'r bocs.

Wrth inni dynnu at derfyn blwyddyn 2019 - 2020, fe ddechreuom sylweddoli pa mor graff yr oeddem wedi bod. Wrth i'r cyfnod clo cenedlaethol ddod i rym, cynyddodd y nifer o ymwelwyr â gwefan *Plentyndod Chwareus* yn gynt a chynt wrth i rieni a gofalwyr chwilio am syniadau am bethau y gallent eu gwneud gyda'r plant yr oeddent yn treulio llawer mwy o amser gyda nhw adref, heb fawr ddim saib.

Mewn ymateb i'r argyfwng, fe wnaethom ail-fframio ein gwaith a'r wefan i adlewyrchu anghenion plant oedd yn dioddef cyfyngiadau ac unigrwydd y cyfnod clo. Roeddem eisiau gwefan sy'n hawdd i'w darllen ac sy'n egluro i ddarllenwyr bwysigrwydd rhoi amser, lle a chefnogaeth i blant chwarae. Mae'r wefan yn llawn awgrymiadau hawdd eu darllen a syniadau chwarae am ddim i sicrhau rhieni nad oes rhaid iddyn nhw wario llawer o arian er mwyn i'w plant allu chwarae.

Wrth i'r flwyddyn ddirwyn yn ei blaen, mae'n ymddangos ein bod wedi llwyddo a'n bod wedi cyfrannu at well dealltwriaeth, yn enwedig ymhlith rhieni, am rôl a phwysigrwydd chwarae ym mywydau eu plant.



Mike Greenaway
Cyfarwyddwr Chwarae Cymru

**www.chwaraecymru.org.uk**

## Digwyddiadau

Trwy gydol y flwyddyn fe wnaethom gefnogi datblygiad, trefnu a chynnal nifer o gynadleddau, seminarau a chyfleoedd DPP ar gyfer y sector chwarae a gwaith chwarae ehangach, gan gynnwys:

- **Ysbryd 2019** – ymunodd 114 o gyfranogwyr mewn cynhadledd cymunedau chwarae-gyfeillgar yng Nghaerdydd, gyda chyflwyniadau allweddol gan y Dr Sudeshna Chatterjee (Action for Children's Environments Trust), Dinah Bornat (ZCD Architects), Yr Athro Sinead Brophy (Prifysgol Abertawe) a'r Dr Wendy Russell (Prifysgol Swydd Gaerloyw).
- **Fforwm Gweithwyr Chwarae 2019** – mynychodd 45 o gyfranogwyr y digwyddiad deuddydd roddodd gyfle i staff o feysydd chwarae antur a phrosiectau chwarae rannu arfer dda a dysgu a datblygu sgiliau ymarferol i gefnogi plant yn chwarae.
- **Chwarae a rheoli risg** – daeth 31 o gyfranogwyr ynghyd yng ngogledd Cymru, gydag areithiau allweddol gan Yr Athro David Ball (Prifysgol Middlesex) a Ben Tawil (Ludicology).

## Cydweithredu academaidd

- Cyfrannu at the *Right to play position paper* a gyhoeddwyd gan Adran Seicoleg Addysgol a Phlant Cymdeithas Seicolegol Prydain.

## Cydweithio yn y DU ac yn rhyngwladol

Fel rhan o'n gwaith canolfan ragoriaeth ryngwladol ehangach, fe:

- Ddarparom gyflwyniad, gweithdy a phoster yng nghynhadledd 'Towards the Child Friendly City' ym Mryste.
- Darparom gyflwyniad allweddol yn seminar 'Creating Child Friendly Environments' ym Melffast.
- Rhoddom gyflwyniad yn yr 'International Play and Playgrounds Symposium' yn Seoul, De Corea ar waith chwarae a datblygu cymwysterau yng Nghymru.
- Croesawom gydweithiwr o Ranbarth Dinesig Torres Vedras, Portiwgal fel rhan o brosiect Erasmws – Symud a Dysgu y Tu Allan.




# Adolygiad ariannol – crynodeb

**Adroddiadau incwm a gwariant Chwarae Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gorffen Mawrth 2020.**

## Cyfanswm incwm £436,954

| | |
|---|---|
| Grant Llywodraeth Cymru | £360,000 |
| Incwm arall | £16,356 |
| Hyfforddi'r gweithlu | £9,309 |
| Cyhoeddiadau | £4,128 |
| Aelodaeth | £1,861 |
| Incwm o fuddsoddiadau | £523 |
| Cronfa Iach ac Egnïol | £44,777 |



## Cyfanswm gwariant £477,922

| | |
|---|---|
| Polisi chwarae, cymorth ac eiriolaeth | £165,835 |
| Datblygu'r gweithlu | £136,761 |
| Gwasanaeth Gwybodaeth | £137,188 |
| Rheolaeth | £38,138 |



**Mae ein hadroddiad blynyddol llawn a'n datganiadau ariannol, yn cynnwys adroddiad yr archwilydd annibynnol, i'w cael ar wefan y Comisiwn Elusennau.**

